# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Sylwer y bydd Cynghorau eraill yn ymuno yng nghyfarfod mis Mawrth am 7 o'r gloch**
**.**

**Nôs Wener, 28$^{ain}$ Chwefror 2014.**

**Presennol. M$^{ri}$:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, D.G.Jones, H.D.Jones, J.P.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, T.J.Thomas, H.M.Williams, M$^{rs}$ Ann Williams a Mrs Gwenfair Davies.

**Ymddiheuriadau.** M$^{ri}$:- Siôn Ifans, G.Wigley a'r C$^{yng}$. G.P.Fychan.

**89. Cofnodion cyfarfod 31$^{ain}$ Ionawr 2014.**
Wedi cywiro 88.3 o chwarel Llwyngwern i chwarel Rhiwgreiddyn derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**90. Materion yn codi o'r cofnodion.**
46.1 Gan fod wyth Cyngor o fewn y Sir wedi penderfynu sefydlu gwefan trwy gwmni Gloversure o'r Trallwng a chael telerau mwy ffafriol, penderfynwyd cysylltu efo nhw i symud ymlaen efo'r prosiect.
63.7 Mae'r trefniadau yn symud ymlaen i gynnal cyfarfod ar y cyd efo Cynghorau cyfagos i drafod dyfodol Ysbyty Bronglais efo Mr Peter Skitt ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Cyngor. Os bydd y cyfarfod yn mynd yn hir, penderfynwyd gohirio materion y Cyngor am fis os na fydd mater pwysig wedi codi yn y cyfamser.
73.71.9 Derbyniwyd e-bost oddi wrth Roland Davies yn egluro mae cwympo coed oedd ef yn canolbwyntio arno a rhoddodd enw Mr John Morgan, Llandinam i ni gysylltu ag ef. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn.
76 Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y cyfraniad o £500 i Eisteddfod Maldwyn 2015.
87.6 Roedd llywodraethwyr yr ysgol wedi trafod y peryglon wrth y fynedfa i stad Glantwymyn ac mewn trafodaeth efo'r Cyngor Sir ynglŷn â'r broblem.

**91. Cynllunio.**
P/2014/0091. Diddymu cyfyngiad preswyl o 13 Daulwyn, Llanwrin. Cefnogi.
P/2014/0191 Codi garej ger Yr Efail, Cemaes. Cefnogi.

**92. Eitemau i'w talu.**
92.1 Tâl aelodaeth Un Llais Cymru 2014/2015 o £174. Dyma'r llais sy'n cynrychioli'r cynghorau trwy Gymru. Cytuno
92.2 £98 am logi ystafell yng Nghanolfan Glantwymyn. Cytuno.

**93. Cais am arian.**
93.1 Darllenwyd cais oddi wrth Lleu Bleddyn, Llanbrynmair am gyfraniad tuag at ei daith i Batagonia sy'n cael ei threfnu gan Urdd Gobaith Cymru ym mis Hydref. Er yn gefnogol i'r prosiect ni ellir defnyddio arian y Cyngor i gefnogi unigolion, a chan fod Lleu yn byw y tu allan i ardal Fferm Wynt Cemaes, nid oedd yr ymddiriedolwyr yn medru cefnogi'r cais.

**94. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
94.1 Mae hysbyseb wedi ei gwneud unwaith yn rhagor am bennaeth ar y tair ysgol Glantwymyn, Llanbrynmair a Charno.

**95. Gohebiaeth.**
95.1 Derbyniwyd ad-daliad o £30 sef Treth ar Werth ar y gost o arolygu'r cyfrifon.
95.2 Gofynnwyd am awgrymiadau am enw i'r Ysgol fydd ym Machynlleth i addysgu ieuenctid o bedair i ddeunaw oed. Ni allai'r aelodau feddwl am well enw nag Ysgol Bro Ddyfi, enw sydd bellach wedi sefydlu ei hun yn yr ardal.
95.3 Mae'r Heddlu'n awyddus i sefydlu cymorthfeydd yng Nghanolfan Feddygol, Glantwymyn ar y dydd Gwener cyntaf a'r trydydd o bob mis am 11.30 y bore. Bydd hyn yn gyfle i'r cyhoedd gysylltu'n uniongyrchol efo'r Heddlu. Eu bwriad hefyd yw galw heibio'r Ganolfan o bryd i'w gilydd yn ystod cyfarfodydd y Cyngor i roi cyfle i'r cynghorwyr leisio barn neu ddod a phroblemau i'w sylw.
95.4 Ymgynghoriad yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir Powys ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yn diwedd ar 17eg Mawrth. Ceir manylion ar y wefan www.powys.gov.uk/haveyoursay
95.5 E-bost oddi wrth Un Llais Cymru yn gofyn am gyfraniad y cynghorwyr i'r cylchgrawn Y Llais.
95.6 Dogfen ymgynghorol oddi wrth y Cynulliad ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.
95.7 Mae Adroddiad Blynyddol 2014/2015 o'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gael drwy gysylltu drwy e-bost ar irpmailbox@cymru.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 02920826913.
95.8 Y Cynulliad yn gofyn barn y cynghorwyr ar:-
i) Offerynnau Statudol i hwyluso'r broses o weithredu Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (y Ddeddf) a'r
ii) Canllawiau i gynorthwyo awdurdodau i arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf.
95.9 Cwmni Fferm Wynt Mynydd Lluest y Graig yn symud ymlaen i gofrestri'r prosiect.
95.10 PAVO yn anfon manylion ar sut mae canolfannau a chymdeithasau yn medru cofrestri ar y we a chael mwy o wybodaeth am yr arian sydd ar gael i ganolfannau a chymdeithasau o fewn Powys. Y cyfeiriad yw :- www.info-engine.org.uk a chlicio ar "Add your organisation".

**96. Unrhyw fater arall.**
96.1 Rhoddwyd caniatâd i'r clerc roi hysbyseb yn y Blewyn Glas am rywun i gynnal a chadw'r mynwentydd am 2014. Darllenwyd llythyr oddi wrth Mr Gwynfor Hughes yn datgan nad oedd yn medru cyflawni'r gwaith eleni. Llythyr o ddiolch am ei waith da yn y gorffennol.
96.2 Tynnu sylw'r Cyngor Sir at y dŵr sydd yn cronni ar y palmant ger Coed Derw, Glantwymyn.
96.3 Atgoffa'r Cyngor Sir am y coed sy'n gordyfu ar y B4404. *(Llanwrin)*
96.4 Gwter wedi cau wrth y fynedfa i Ffriddfawr, Commins Coch a thyllau yn y ffordd at y fferm.
96.5 Y ffordd o bont Cae'r Hendre tuag at y fynedfa i Gwmeidrol angen ei ysgubo.
96.6 Y cynghorwyr yn datgan pryder am ddyfodol y ganolfan ddydd ym Machynlleth. Llythyr i'r perwyl i'r Cyngor Sir.
96.7 Sbwriel angen ei glirio o ochrau'r ffyrdd.
96.8 Awgrym i'r gweithwyr sy'n casglu'r sbwriel roi'r bocsys yn eu gilydd wedi eu gwacáu.
96.9 Atgoffa'r Cyngor am y dŵr sydd yn cronni ger Glandyfi, Llanwrin. *(Grey House)*
96.10 Coeden criafolen yn gwyro i'r ffordd uwchben Glandŵr, Llanwrin.
96.11 Y ffordd angen wyneb mwy llyfn o boptu pont Mathafarn, B4404.

Nid oedd mater arall a gorffennwyd am 8.30 o'r gloch.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28ain Mawrth 2014 am 7 o'r gloch.**

**Bydd aelodau o Gynghorau cyfagos yn bresennol lle disgwylir Mr Peter Skitt o'r Awdurdod Iechyd i drafod y Gwasanaeth Iechyd ym Mro Ddyfi a dyfodol Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.**